

# EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG CAERDYDD (‘EEGC’)

## POLISI PREIFATRWYDD DATA

Ar 25 Mai 2018, daw Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol newydd, y cyfeirir ato fel y GDPR (General Data Protection Regulation), i rym. Mae'r Rheoliad hwn yn diffinio'r ffordd y mae sefydliadau, gan gynnwys EEGC, yn casglu, trin a diogelu eich data personol, a hefyd eich hawliau data.

### **GWYBODAETH BERSONOL YR YDYCH WEDI EI RHOI I EEGC**

Byddwch wedi darparu eich gwybodaeth bersonol i EEGC yn y ffyrdd canlynol:

- Gwybodaeth y gwnaethoch ei datgelu fel modd cysylltu a chi. Byddai hyn wedi cynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn (sefydlog/symudol) ac, o bosibl, eich cyfeiriad e-bost.
- Wrth anfon e-bost at cyfeiriad e-bost y capel, neu neges twitter i gyfeiriad Twitter EEGC.
- Wrth anfon erthygl i'w gynnwys yn y Cwmpawd, byddech wedi rhoi eich manylion cyswllt i ni.

### **SUT Y MAE EEGC YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL**

- Aelodau: Ni fyddwn yn rhannu eich data personol â neb y tu allan i aelodau EEGC.
- Rhieni plant clwb/ysgol Sul: Ni fyddwn yn rhannu eich data personol â neb y tu allan i gwirfoddolwyr y clybiau neu'r ysgol Sul.

### **AM FAINT O AMSER YDYN NI'N CADW'R WYBODAETH YMA?**

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan aelodau yn cael ei dinistrio unwaith y bydd yr aelodaeth yn dod i ben, oni bai bod caniatad i'w chadw ynHELLACH.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan rhieni yn cael ei dinistrio unwaith y bydd y cysylltiad yn dod i ben.

Byddwn yn ailasesu'n rheolaidd ein hangen i gadw eich gwybodaeth bersonol a dileu unrhyw wybodaeth a ystyrir gan EEGC i fod yn ddianghenraid.

### **EICH HAWLIAU DATA**

Mae gennych hawl i gael mynediad at unrhyw ddata personol y mae EEGC yn ei ddal amdanoch ar unrhyw adeg. Gallwch gyflwyno cais naill ai drwy'r post neu e-bost ar gyfer cywiro neu ddileu rhywfaint neu'r holl o'r wybodaeth

personol sydd gennym amdanoch.

Byddwn yn ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau o'r fath.

Os hoffech weithredu ar unrhyw un o'ch hawliau, cysylltwch â

Os na ellir datrys eich cŵyn ynglŷn â thrin eich data personol gan y Dinesydd yn foddhaol, gallwch wneud cŵyn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO).

Am wybodaeth fwy manwl am eich hawliau neu'r GDPR yn gyffredinol, ewch at y wefan ganlynol: <http://ico.org.uk/for-organisations>